

Jeremy Miles AC/AM
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA - L/CG/0176/19

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

13 Chwefror 2019

Annwyl Mick,

Ysgrifennaf atoch i rannu barn gychwynol Llywodraeth Cymru ar y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) er mwyn llywio trafodaethau'r Pwyllgor wrth iddo graffu yng Nghyfnod 1, a fydd yn ei dro yn llywio ystyriaethau'r Llywodraeth o ddiwygiadau posibl y gellid eu cyflwyno gennym yng Nghyfnod 2.

Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi gallu rhoi cymorth i'r Llywydd ddatblygu'r darpariaethau etholfraint yn y Bil, gan ystyried y cysylltiadau â'n deddfwriaeth ni ein hunain, sydd ar fin ymddangos, sy'n ymwneud ag etholiadau llywodraeth leol. Rwy'n ddiolchgar hefyd o fod wedi cael y cyfle i drafod rhai o'r darpariaethau eraill yn y Bil gyda'r Llywydd wrth iddynt gael eu datblygu.

Fel y dywedais yn y Cyfarfod Llawn fel ymateb i ddatganiad y Llywydd, mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol iawn i brif nodau'r Bil fel yr ydym ni yn eu gweld nhw: i ailenwi'r sefydliad er mwyn adlewyrchu ei statws, i estyn yr etholfraint, ac i roi mwy o eglurder ynghylch y rheolau ynglŷn ag anghymhwys. Mae ein harsylwadau penodol ar ddarpariaethau'r Bil i'w gweld isod.

Rhan 2 – Enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae'r Bil yn darparu bod y Cynulliad yn cael ei ailenwi drwy ddwy wahanol ddarpariaeth mewn termau tebyg, un ohonynt yw diwygio a1(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel ei bod yn dweud:

“(1) There is to be an Assembly for Wales to be known as the Senedd.
(1A) The Senedd may also be known as the Welsh Parliament”.

Mae gan Lywodraeth Cymru bryderon y gallai'r newid hwn ychwanegu at y penbleth sy'n bodoli eisoes ynghylch enwau ein sefydliadau, yn hytrach na lleihau'r penbleth hwnnw. Mae hyn yn hynod bwysig gan ystyried bod y diwygiadau a gynigir yn rhai i'n statud cyfansoddiadol allweddol. Rydym hefyd yn poeni y gallai defnyddio "Senedd" ar ei ben ei hun heb unrhyw awgrym arall o'i gysylltiad tiriogaethol â Chymru arwain at faterion hygrychedd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSCGBM@gov.wales / YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddai'n well gennym ddiwygio a1(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn osgoi unrhyw berygl o benbleth, fel hyn:

“(1) There is to be a parliament for Wales to be known as [x].”

Rydym yn cydnabod mai mater i'r Cynulliad cyfan benderfynu yn ei gylch yw enw ein senedd, ond rydym hefyd yn ystyried y byddai'n fanteisiol dewis "Senedd Cymru" a "Welsh Parliament" cyn "Senedd" oherwydd byddent yn ymateb i'n ail bryder ynglŷn â'r cysylltiad tiriogaethol, fel y gwna Senedd yr Alban a Dáil Éireann.

Rhan 3 – Etholiadau

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl gefnogol i'r cynnig i estyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 ac 17 oed. Ein safbwynt polisi yw y dylai'r etholfraint ar gyfer etholiadau'r Cynulliad fod yn gyson â'r hyn yr ydym yn bwriadu ei estyn ar gyfer etholiadau llywodraeth leol. I'r perwyl hwn, hoffem weld y Bil hwn yn cynnwys gwladolion tramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru yn cael eu cynnwys yr etholfraint.

Rydym yn gweithio gyda Chomisiwn y Cynulliad i ystyried pa drefniadau fydd eu hangen i sicrhau bod yr etholfraint ar gyfer etholiadau datganoledig yn cael ei hestyn yn llwyddiannus. Bydd y rhain yn cynnwys deunyddiau ymchwil, cyfathrebu ac addysgol. Rydym yn rhagweld y bydd angen sefydlu Bwrdd Allanol Llywodraeth Cymru o gynghorwyr i helpu gyda'r gwaith hwn, a bydd y Comisiwn yn bartneriaid allweddol i'n helpu i siapio'r gwaith.

Bydd rhaid meddwl yn ofalus am sut i drosglwyddo'r neges yn yr ymgyrchoedd cyfathrebu ac addysg er mwyn achosi cyn lleied o benbleth â phosibl i'r etholaeth os bydd yr etholfraint ar gyfer etholiadau'r Cynulliad a llywodraeth leol yn ymwahanu.

At hynny, rydym yn cefnogi'r egwyddor o roi'r bleidlais i garcharorion ac edrychwn ymlaen at dderbyn adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol er mwyn ein helpu wrth inni ystyried hyn.

Gan fod gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig erbyn hyn, mae angen gosod ei berthynas gyllido ac atebolrwydd gyda'r Comisiwn Etholiadol ar sylfaen ffurfiol. Rydym yn barod i weithio gyda'r Llywydd fel yr Aelod Cyfrifol, y Comisiwn Etholiadol a Thrysorlys EM, yng ngoleuni craffu Cyfnod 1, i ystyried a fyddai modd cyflwyno diwygiadau i gyflawni hyn. Byddai'r diwygiadau hyn yn drech na'r ddyletswydd bresennol a gynigir yn y Bil i ystyried diwygio'r modd y goruchwylir gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymreig, ac yn ei disodli.

Rhan 4 – Anghymhwysu

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r bwriad polisi yn llawn i roi eglurder ynghylch y personau/swyddi sydd wedi'u hanghymhwysu rhag aelodaeth, ac sydd wedi anghymhwysu rhag sefyll fel ymgeisydd. Er mwyn bod yn gwbl fodlon bod y darpariaethau hyn yn cael gwared ar gymhlethdod i'r graddau eithaf posibl, a bod yn esmwyth â sail resymegol y polisi ar gyfer newid cymhwystra o'r hyn a geir yn y gyfraith bresennol mewn unrhyw ffordd, rydym yn eu dadansoddi'n fanwl. Byddwn yn croesawu barn y Pwyllgor am y materion hyn, yn arbennig o ystyried ei waith, a'r gwaith a wnaed cyn hyn gan ei ragflaenydd, yn y maes hwn.

Rhan 5 – Amrywiol

Rydym yn nodi mai materion mewnol ar gyfer Comisiwn y Cynulliad a'r Cynulliad yn hytrach na Llywodraeth Cymru yw'r rhan fwyaf o'r darpariaethau.

Fodd bynnag, mae'r Bil yn y Rhan hon yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru weithredu argymhellion ar gyfer diwygio cyfraith etholiadol a wneir gan Gomisiwn y Gyfraith

Nid ydym o'r farn ei bod yn briodol i barhau ymhellach ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith, na chreu disgwyliad amdanynt, fel hyn, ac mae gennym bryderon ynghylch y ffordd y drafftwyd y darpariaethau presennol o safbwynt y modd y byddant yn rhyngweithio â phwerau sy'n bodoli eisoes a phwerau sy'n ymwneud ag etholiadau llywodraeth leol.

Yn hytrach, rydym yn ystyried, yn gyffredinol, y dylid cyflwyno argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer diwygio cyfraith etholiadol neu unrhyw gyfraith, os cefnogir y rhain gan Lywodraeth Cymru, gan ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol o dan weithdrefnau wedi'u cyflymu. Mae tipyn o waith wedi'i wneud erbyn hyn ar ddatblygu gweithdrefn wedi'i chyflymu, hyblyg ar gyfer cydgrynhoi Biliau. Hoffem ymchwilio maes o law i broses wedi'i chyflymu debyg ar gyfer biliau diwygio'r gyfraith sy'n mynd ymhellach na chydgrynhoi, fel yr argymhellwyd gan Gomisiwn y Gyfraith ei hun yn ei adroddiad ar ffurf a hygyrchedd y gyfraith.

Gobeithiaf fod y myfyrdodau hyn yn ddefnyddiol. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, fel yr Aelod Cyfrifol, ac at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyd ar y Bil hwn yn ystod ei hynt drwy'r Cynulliad.

Yn gywir



Jeremy Miles AC

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister